# Arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am wasanaethau ac adnoddau a chefnogi teuluoedd i gael gafael ar y gwasanaethau. Mae hefyd yn cynnwys datblygu'r ddarpariaeth ac annog arferion gorau yn y gwaith gyda babanod a phlant bach.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. annog teuluoedd i rannu eu hanghenion a'u dewisiadau mewn perthynas â gwasanaethau i fabanod neu blant bach
2. asesu'r gwasanaeth i wneud yn siwr ei fod yn cwrdd ag anghenion babanod neu blant bach a theuluoedd
3. helpu teuluoedd i gael gafael ar wybodaeth, cymorth ac adnoddau
4. trafod costau gyda theuluoedd, gan gynnwys unrhyw gymorth ariannol
5. rhoi gwybodaeth fanwl a hygyrch i deuluoedd am y gwasanaethau sydd ar gael
6. cynllunio i ddatblygu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau
7. nodi ffynonellau a threfnu adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau
8. dod o hyd i gyllid yn allanol i gefnogi gwasanaethau
9. gweithio gyda theuluoedd i wella gwasanaethau drwy nodi eu dewisiadau, eu hanghenion a'r adnoddau sydd ar gael
10. arwain y gwaith o gynllunio gwelliannau i wasanaethau partneriaeth â theuluoedd
11. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i gefnogi babanod neu blant bach wrth iddynt symud i amgylcheddau newydd
12. sicrhau bod y gweithle'n dilyn arferion gorau wrth weithio gyda babanod neu blant bach
13. darparu amgylcheddau diogel sy'n hybu llesiant a datblygiad babanod neu blant bach
14. sicrhau ymarfer myfyriol ac ymatebol sy'n hybu llesiant a datblygiad babanod neu blant bach
15. nodi a defnyddio fframweithiau cwricwlwm neu ddatblygu sy'n cefnogi arferion gorau wrth weithio gyda babanod neu blant bach
16. cydweithio ag eraill i nodi eu hanghenion dysgu a chyfleoedd datblygu i gefnogi babanod neu blant bach
17. cefnogi eraill i gael mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu
18. defnyddio adnoddau i weithredu a rhannu gwybodaeth am arferion gorau
19. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain darpariaeth ar gyfer babanod neu blant bach mewn partneriaeth â theuluoedd
20. meddyliwch ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain darpariaeth ar gyfer babanod neu blant bach mewn partneriaeth â theuluoedd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. datblygiad cyn geni a ffactorau sy'n effeithio ar dwf y ffetws a datblygiad yr ymennydd
2. yr ystod o ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy’n effeithio ar ddatblygiad babanod a phlant bach
3. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddatblygiad babanod a phlant bach
4. y newidiadau y gall babanod a phlant bach fynd drwyddynt, a sut i’w cefnogi
5. eich rôl o ran arwain gweithdrefnau’r gweithle ar gyfer cynllunio, a sut mae hyn yn cysylltu â fframweithiau cwricwlwm neu ddatblygu
6. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu datblygiad babanod a phlant bach
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y ddarpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach
8. sut mae rheoli a threfnu amgylcheddau ar gyfer babanod a phlant bach sy’n hwyluso ymlyniadau diogel ac yn cefnogi rheoleiddio emosiynol, llesiant a gwydnwch
9. y cyfraniad mae chwarae'n ei wneud at ddatblygiad holistaidd babanod a phlant bach
10. sut mae defnyddio dull gwella ansawdd i gefnogi gwelliant parhaus a chynnal safonau ansawdd ar gyfer dysgu a datblygu
11. sut mae sicrhau bod gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau yn hygyrch i bawb
12. y cymorth sydd ar gael i fabanod a phlant bach a’u teuluoedd
13. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth weithio mewn partneriaeth â theuluoedd
14. dulliau o gefnogi eraill i weithio gyda babanod a phlant bach, a’u cefnogi
15. sut mae arwain systemau, gweithdrefnau ac arferion sy’n cefnogi’r ddarpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd
16. egwyddorion asesiadau risg, rheoli risgiau a chymryd risgiau cadarnhaol
17. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach
18. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd
19. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain darpariaeth ar

gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd

20. theorïau sy’n berthnasol i arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd
21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd
22. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd
23. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd, a sut i fynd i'r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD437

Arwain darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD437 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Arwain Darpariaeth ar gyfer babanod a phlant bach, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |